Ysgol Plas Coch
Ffordd Stansty
Wrecsam
LL11 2BU
Ffôn: 01978 311198
Ffacs: 01978 311198

*Ysgol Plas Coch*
*Stansty Road*
*Wrexham*
*LL11 2BU*
*Tel: 01978 311198*
*Fax: 01978 311198*

# YSGOL PLAS COCH

**Mr Osian Jones BA**
**Pennaeth *Head Teacher***

*E-bost*/E-mail: **mailbox@plascochpri.wrexham.sch.uk**
*Gwefan*/Website: **www.ysgolplascoch.cymru**

**Eisteddfod yr Urdd 2025**

Annwyl rieni a gwarchodwyr

Mae'r amser wedi cyrraedd i baratoi ar gyfer eisteddfodau yr Urdd a fydd yn cael eu cynnal yn ystod y tymor. Er mwyn medru cystadlu, mae'n rhaid i'r disgyblion fod yn aelodau o'r Urdd. Gallwch gofrestru eich plentyn yn aelod drwy'r ddolen isod:

https://www.urdd.cymru/cy/ymuno/

Os yw'ch plentyn wedi bod yn aelod llynedd neu cyn hynny, gallwch fewngofnodi i'ch cyfrif Porth yr Urdd ac ail ymaelodi yno.

Os hoffech i'ch plentyn gystadlu mewn cystadleuaeth unigol e.e. llefaru neu ganu, bydd angen i chi gofrestru eich plentyn ar gyfer y gystadleuaeth, hefyd drwy Porth yr Urdd. Bydd staff yn yr ysgol yn hyfforddi'r plant ar gyfer y cystadlaethau canlynol (ond bydd angen i rieni eu cofrestru fel nodir uchod):

**Llefaru unigol Bl 2 ac iau: Bl 3 a 4; Bl 5 a 6**
**Canu unigol Bl 2 ac iau: Bl 3 a 4; Bl 5 a 6**

Ni fyddwn yn cystadlu mewn cystadlaethau partion / corau eleni gan ein bod wedi cael ein derbyn i gystadlu yn Eisteddfod Ryngwladol Llangollen ac yn bwriadu cystadlu yn Eisteddfod Gendelaethol Wrecsam ddechrau Awst.

Dyma'r dyddiadau cau ar gyfer cofrestru i gystadlu:

**27:01:25 –** Cystadlaethau offerynnol a dawnsio
**17:02:25 –** Cystadlaethau llwyfan (e.e. canu a llefaru)

Dyddiadau a lleoliadau y gwahanol eisteddfodau eleni fydd:

**07:03:25 –** Eisteddfod rhanbarth offerynnol yn Ysgol Maes Garmon, Yr Wyddgrug
**07:03:25 –** Eisteddfod Ddawns Rhanbarth yn Ysgol Maes Garmon, Yr Wyddgrug
**15:03:25 –** Eisteddfod Gylch (canu a llefaru) yn Ysgol Bro Alun, Gwersyllt
**05:04:25 –** Eisteddfod Rhanbarth (canu a llefaru) yn Neuadd William Aston, Wrecsam.
**26:05:25 - 31:05:25 –** Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Parc Margam, Port Talbot.

Os oes gennych unrhyw gwestiwn, neu angen gwybodaeth bellach, cysylltwch efo'r ysgol.